Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

# GRŴP CADFAN
# 11/2021

# **CANLLAW NEWID HINSAWDD**
# CLIMATE CHANGE WORKBOOK


ODDI WRTH YR ESGOB

*Bydd ein sesiwn gyntaf yn cael ei harwain gan Stuart Elliott. Wrth i arweinwyr y cenhedloedd ymgynnull yn Glasgow, rwyf wedi gofyn i Stuart gyflwyno trosolwg inni o'r ddarpariaeth Carbon Sero Net a "Troedio'n Ysgafn ar y Ddaear Sanctaidd" yr Eglwys yng Nghyrmu. Bydd amser inni drafod yr adnoddau a chynnig adborth. Fy ngobaith yw, yn seiliedig ar yr adborth hwn, y bydd Stuart, gan weithio gyda chydweithwyr esgobaethol eraill, yn gallu paratoi set o ymrwymiadau a phenderfyniadau y byddaf am eu cymeradwyo i gyfarfod Festri Blynyddol pob Ardal Weinyddiaeth yn 2022. Mae hwn yn waith difrifol mewn maes hanfodol bwysig.*


FROM THE BISHOP


*Our first session will be led by Stuart Elliott. As leaders of the nations gather in Glasgow, I have asked Stuart to present to us an overview of the Church in Wales's developing Net Zero Carbon and "Treading Lightly on Holy Ground" provision. There will time for us to digest the resources and to offer feedback. My hope is that, based on this feedback, Stuart working with other diocesan colleagues will be able to prepare a set of commitments and resolutions that I will want to commend to every Ministry Area's Annual Vestry meeting in 2022. This is serious work in a vitally important area.*

# CYHOEDDIADAU WEDI EU CYNNWYS YMA
# PUBLICATIONS INCLUDED






4
CYHOEDDIAD 1
**EIN GALWAD GRISTNOGOL I OFALU AM Y GREADIGAETH**
PUBLICATION 1
**TREADING LIGHTLY ON HOLY GROUND**




22
CYHOEDDIAD 2
**TROEDIO'N YSGAFN AR Y DDAEAR SANCTAIDD**
PUBLICATION 2
**OUR CHRISTIAN CALLING TO CARE FOR CREATION**




32
CYHOEDDIAD 1
**LLWYBR YMARFEROL TUAG AT CARBON SERO NET AR GYFER EIN HEGLWYSI**
PUBLICATION 1
**A PRACTICAL PATH TO NET ZERO CARBON FOR OUR CHURCHES**

**Mae'r alwad arnom yn Genesis** i ofalu am y greadigaeth yn orchymyn i Gristnogion wneud gwaith Amgylcheddol. Er bod hon yn ddehongliad defnyddiol i fyfyrio arni, mae'n anodd gwybod yn aml iawn yn union lle i gychwyn pan fydd pobl yn siarad am newid yn yr hinsawdd, targedau ac ynni adnewyddadwy.

**Nid yw'r problemau'n hawdd** ac ychydig iawn ohonom sy'n arbenigwyr. Yn ein heglwysi lleol rydym eisiau gwneud y pethau cywir er budd yr amgylchedd. Rydym hefyd eisiau gallu dilyn gofyniad Duw ac Iesu i weithio'n llawen (Colosiaid 1:9-16) yn hytrach nag ystyried hon yn ddim byd mwy na thasg feichus arall.

**Bydd yr arweiniad byr** yma'n eich cyflwyno i'r Eco-Eglwys, prosiect gan A Rocha a bydd yn cynnig ffyrdd eraill o ddechrau edrych yn holistig ar yr eglwys leol mewn perthynas â'r amgylchedd.



**The Genesis call** for stewardship of creation gives Christians a mandate for Environmental work. Whilst this can be a useful reflection it is often hard to know exactly where to begin when people are speaking of climate change, targets and renewable energy.

**The issues** are not easy and few of us are experts. In our local churches we want to do the right things for the environment. We also want to be able to follow the calling of God and of Jesus to work joyfully (Colossians 1:9-16) rather than this becoming yet another chore.

**This brief guide** will introduce you to Eco-Church, a project from A Rocha (www.arocha.org.uk) and will offer ways of beginning to look holistically at local church with relation to the environment.



**Y Camau Cyntaf.**

**Cofrestrwch gyda'r Eco-Eglwys**
www.ecochurch.arocha.org.uk

**Mae'n rhad ac am ddim ac mae'r broses yn syml.**

*"I ddod yn Eco-Eglwys mae gofyn i chi wneud llawer mwy na dim ond edrych ar ôl adeiladau mewn ffordd sy'n garedig i'r amgylchedd – er bod hynny'n rhan allweddol o'r broses. Mae'r daith yma'n effeithio ar bob rhan o'n bywydau yn yr eglwys, yn cynnwys y ffordd yr ydym yn ymwneud â'n cymunedau a'r byd ehangach. Mae'n ymwneud â chenhadaeth holistig." Eco-Eglwys*

**Gwneud arolwg yr Eco-Eglwys.**

Mae'r arolwg yma'n mesur lle'r ydych ar hyn o bryd. Mae'n bosibl eich bod yn gymwys yn barod i dderbyn dyfarniad efydd. Os felly, mae hynny'n wych. Ond, nid proses o roi tic ar eitemau mewn rhestr yw hon, rydych yn cychwyn ar daith.




ECO CHURCH
LAND

## The First Steps

### Register with Eco Church

www.ecochurch.arocha.org.uk

**It's free to sign up and the process is simple.**

*"Becoming an Eco Church is so much more than looking after buildings in an environmentally-friendly way – though that's a key part of the process. This journey affects every area of our church lives, including how we engage with our communities and the wider world. It is about holistic mission." Eco-Church*

### Take the Eco Church survey.

This is a benchmark of where you are now. It's possible you already qualify for a bronze award, if so, that's great. But it's not just an exercise in checking off a list, it is the beginning of a journey.



***Addoli ac Addysgu***

**Dilynwch Gyfnod y Creu** sy'n rhedeg o Fedi'r 1af hyd Hydref 4ydd.

Mae deunyddiau dwyieithog ar gael o CYTUN a wefan CTBI

**Mae cynigion yn barod yn y llithiadur** am bethau i'w gwneud drwy gydol y flwyddyn Gristnogol. Manteisiwch a'r adnoddau eraill sydd ar gael o asiantaethau cymorth.

**Defnyddio'r adnodd *'Trwy'r blwyddyn Celtaidd'*** i helpu chi ail-gysylltu â natur.

**www.brogwydyr.cymru**



### *Worship and Teaching*

**Follow Creation Time** which runs from 1st September until 4th October.

Bilingual material is available from CYTUN and CTBI Websites

**Take the opportunities already offered in the lectionary,** throughout the Christian year and resources available from aid agencies.

**Use the resource *'Through the Celtic year'*** to help you re-connect with nature.

**www.brogwydyr.cymru**



***Adeiladau'r Eglwys***

Rhaid i bob eglwys leol asesu ei hanghenion ei hun a chychwyn lle mae'n fwyaf priodol iddi hi.

Ond, efallai y byddai hwn yn lle da i gychwyn:

**Goleuadau -** bydd dewis LED yn arbed arian i chi'n syth ar filiau trydan. Gallai Parish Buying eich helpu i ganfod offer goleuo mwy o faint: (www.parishbuying.org.uk) *Paid anghofio'r ficerdy a neuadd yr eglwys!*

**Newidiwch eich cwmni ynni** i gwmni ynni adnewyddadwy – mae Tariffau Gwyrdd Trydan a Nwy ar gael ond mae rhai'n fwy effeithiol nag eraill. Efallai eu bod ychydig yn ddrytach. Os byddwch yn ystyried hyn yn rhan o'ch rhodd i'ch cenhadaeth gallai fod yn ffordd effeithiol o roi gwybod i bobl bod gennych gariad at greadigaeth.



### *Church Buildings*

Each local church must assess its own needs and begin where it is most appropriate.

However, a good place to begin might be:

**Lights** - LED alternatives will save you money on electricity bills immediately. Parish Buying can help with sourcing larger light fittings. (www.parishbuying.org.uk) *Don't forget the vicarage and the church hall!*

**Switch your energy company** to a renewable source - Electric and Gas Green Tariffs are available but vary in their effectiveness. They may be slightly more expensive. Seen as part of your giving to mission they can be an effective tool in letting people know you have a heart for creation.



***Tir yr Eglwys***

**Rheoli eich mynwent gan barchu byd natur.** Dewiswch fannau lle gallwch adael i'r glaswellt dyfu. Crëwch gornel natur. Anogwch fywyd gwyllt drwy gamu'n ôl a pheidio â'i drin ormod. Esboniwch i ymwelwyr beth sy'n digwydd gyda byrddau gwybodaeth.

***O Gofalu am Erw Duw***

Mae safleoedd claddu'n safleoedd pwysig ac efallai bydd ganddynt warchodaeth arbennig. Er enghraifft, mae nifer o safleoedd claddu wedi'u dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n ddynodiad cyfreithiol.

Ydi eich safle claddu chi mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol? Mae gan awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau natur restri o safleoedd sydd o ddiddordeb penodol o ran bywyd gwyllt, fel 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' neu 'Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur'.

Edrych ar tudalen y we 'Church heritage Cymru' am wybodaeth.



***Church Land***

**Manage your churchyard** with nature in mind. Leave areas of grass to grow. Create a nature corner. Encourage wildlife by stepping back from overly manicuring. Explain what is going on to visitors with interpretation boards.

***From Caring for God's Acre***

Burial grounds are important sites and may well have special protection. For example, a number of burial grounds are designated as Sites of Special Scientific Interest (SSSIs), which is a legal designation.

Is your burial ground within a National Park or an Area of Outstanding Natural Beauty? Local authorities and wildlife trusts have lists of sites with particular wildlife interest such as 'Wildlife Sites' or 'Sites of Nature Conservation Importance'.

Check the Churchyard pages on Church Heritage Cymru for information.

***Bywyd yn eich Gymuned a dros y Byd Eang***

**Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu**

Mae menter Byw'n Ysgafn y Deyrnas Unedig gan A Rocha yn ein hatgoffa nad oes unrhyw beth wedi'i wastraffu mewn creadigaeth.

Mae dail yr hydref yn troi'n domwellt ffrwythlon y gwanwyn. Mae gan bob elfen rôl ffrwythlon. Ac eto yn y Deyrnas Unedig mae pob un ohonom yn taflu hanner tunnell o wastraff ar gyfartaledd bob blwyddyn, y dylai o leiaf 60 y cant ohono gael ei ailgylchu. Mae ymdrin â gwastraff yn ymarfer technegol ac yn ddisgyblaeth ysbrydol.

**Coginiwch bryd o fwyd** sy'n cynnwys cynnyrch lleol, ac ystyriwch ddefnyddio cynnyrch lleol a Fasnach Deg ar gyfer prydau sy'n cael eu gweini yn yr eglwys.

Chwiliwch am Farchnad Ffermwyr yn eich ardal chi ar www.fmiw.co.uk/

> ***"Cofiwch fyw'n ecolegol. Gadewch i'r ffordd yr ydych yn byw fynegi mwy na'ch geiriau. Yna bydd pobl o'ch cwmpas yn dechrau ystyried pam yr ydych yn gofalu am y greadigaeth." Eco-Eglwys***



***Life in your Community and globally***

**Reduce, Re-use, Recycle**

A Rocha UK's Living Lightly initiative reminds us nothing is wasted in creation.

Autumn leaves become spring's fertile mulch. Every element has a fruitful role. Yet in the UK we each throw away an average of half a tonne of waste per year, at least 60 per cent of which could be recycled. Tackling waste is a technical exercise and a spiritual discipline.

**Cook a meal** using local produce, and consider using local and Fairtrade produce for meals served at church.

Find a local Farmer's Market www.fmiw.co.uk

***"Live ecologically. Let your life speak louder than your words. Then the people around you will start to wonder why you are caring for creation." Eco-Church***



***Y Camau Nesaf***

Ydych chi wedi gwneud rhai o'r uchod? Gwych!

**Ewch yn ôl at Arolwg yr Eco-Eglwys.** Gosodwch ddyddiad yn eich dyddiadur i wneud hyn eto am y drydedd gwaith - efallai y byddwch wedi gwneud digon erbyn hynny i ennill dyfarniad am eich ymdrechion.– Dathlwch hynny o fewn eich Gweinidogaeth i annog pobl eraill.

***Addoli ac Addysgu:***

**Gwahoddwch siaradwr o'r tu allan** i'ch cyfarfod nesaf neu i ddigwyddiad arall … (A Rocha, Gofalu am Erw Duw, Cymorth Cristnogol …)

**Trefnwch ymweliad â safle fydd yn ysbrydoli pob** (www.CAT.org www.quietgarden.org, www.carefarminguk.org www.ameliatrust.org)

***Prosiectau Ymarferol yr Eglwys***

Mesurwch Ôl-Troed Carbon eich eglwys a gosodwch darged ar gyfer ei ostwng.

Defnyddiwch www.360carbon.org yn arbennig am eglwysi.

**Gosodwch reilen feiciau** i'ch ymwelwyr ac anogwch bobl i feicio i'r eglwys.



***The Next Steps..***

Done some of the above? - Great!

**Revisit your Eco-Church Survey.** Set a date in your diary to do it a third time - perhaps you will have attained an award for your efforts. - Celebrate this in the Ministry Area as an encouragement for others.

***Worship and Teaching:***

**Invite an outside speaker** to your next church meeting or other event... (A Rocha, Caring for God's Acre, Christian Aid ...)

**Arrange a visit** to a site of encouragement ... (www.CAT.org www.quietgarden.org www.carefarminguk.org www.ameliatrust.org)

***Practical Church Projects***

Measure your church Carbon Footprint and set a target for reduction.

Use www.360carbon.org *designed for churches*

**Install a bike rack** for visitors and encourage people to cycle to church.



**Ewch yn ôl at eich cynllun rheoli ar gyfer mynwent yr eglwys.**

**Plannwch goed brodorol** ar dir yr eglwys. Gweithgaredd cymunedol gwych. (Collen, Derw, Bedwen ac ati) Mae coed yn storfeydd carbon naturiol ac yn glanhau'r aer.

Gallech blannu a gofalu am goed fydd yn rhoi tanwydd i chi yn y dyfodol. Gallech greu coedlan hyd yn oed i'w defnyddio'n lleol os oes digon o dir ar gael. Mae hon yn rhoi cynefin i fywyd gwyllt hefyd. Efallai y cewch goeden neu ddwy'n rhad ac am ddim gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.

**Plannwch lwyni ffrwythau ar y ffiniau.** Gwsberis, llwyni cyrens, mefus gwyllt. Gwnewch jam gyda'r cynnrych a'i werthu.



**Re-visit your churchyard management plan.**

**Plant native trees** on church land. A great community activity. (Hazel, Birch Oak etc) Trees are a natural store for carbon and clean the air.

A future source of fuel could be planted and maintained as a coppice for local use if enough land is available. This also provides a habitat for wildlife. Some trees may be free from Wildlife Trusts.

**Plant fruit bushes at the borders.** Gooseberry, Jostaberry, Currant bushes, wild strawberry. Sell jam made with the produce.



***Bywyd yn eich Gymuned a dros y Byd Eang***

Ystyriwch eich bywyd gweddïo personol

*"Yn hytrach na cheisio newid gweddi drwy ychwanegu darnau sy'n cyfeirio at yr amgylchedd, ewch yn ôl at wreiddiau gweddi – lle mae'r creawdwr a'r greadigaeth yn cysylltu - yn ddirgel, yn ein plith. Crëwch ofod. Cymerwch amser." Yr Eco-Eglwys*

Gwnewch arolwg trwyadl o'ch dull o fyw (www.climatestewards.org) Mesurwch eich ôl-troed carbon a gosodwch darged i geisio'i leihau.

'Rhaid i bob un ohonom wneud archwiliad cyflawn, radicalaidd a gonest o'n dulliau byw, eu heffaith ar y tlawd ac ar y blaned.' *Sylfaenydd A Rocha y Deyrnas Unedig, Dave Bookless*

**Edrychwch eto ar eich Arolwg yr Eco-Eglwys a dathlwch yr hyn rydych wedi'i gyflawni.**



***Life in your Community and globally***

Consider your personal prayer life

*"Rather than try to change prayer by adding references to the environment, revisit the roots of prayer – where creator and creation become connected – mysteriously, in our midst. Create space. Take time." Eco-Church*

Take a lifestyle audit  Take a lifestyle audit (www.climatestewards.org) Measure your carbon footprint and set a target to reduce it.

'We all need to make a complete, radical and honest audit of our lifestyles, their impact on the poor and on the planet.' *A Rocha UK founder Dave Bookless.*

**Revisit your Eco-Church Survey and celebrate what you have achieved.**

## Oherwydd ein pryder a'n cyfrifoldeb dwfn dros greadigaeth a phobl Duw, rhaid i ni nodi:

- y rhybudd moel gan gymuned wyddonol y byd mai dim ond 9 mlynedd sydd ar ôl i ddynoliaeth gael cyfle da i atal cynhesu gan 1.5 gradd.
- bod cynhesu y tu hwnt i 1.5 gradd yn fygythiad i ddyfodol y ddynoliaeth, ac y bydd hyd yn oed cynhesu i'r lefel honno yn dinistrio bywoliaeth pobl ddirifedi ledled y byd.
- y bydd cynhesu y tu hwnt i 1.5 gradd yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth ein planed.

**Mae rhagor o wybodaeth am y wyddoniaeth sy'n gysylltiedig â chynhesu 1.5 gradd a newid yn yr hinsawdd yn https://www.ipcc.ch/sr15/**

Yng nghysgod y bygythiad cynyddol hwn yn sgil newid yn yr hinsawdd a difodiant rhywogaethau, mae Cristnogion yn ailddarganfod yn yr ysgrythurau, y neges graidd sy'n galw arnom i ofalu am y greadigaeth. Mae Pumed Nod Cenhadaeth y Cymun Anglicanaidd yn lleisio'r rheidrwydd hwn "i ymdrechu i ddiogelu uniondeb y greadigaeth a chynnal ac adnewyddu bywyd ar y ddaear". Rydym wedi'n galw i ofalu am mai 'Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (*Salmau 24.1*). Mae Duw yn ymhyfrydu yn y byd a greodd (*Genesis 1.31*) sy'n ymateb i Dduw mewn mawl (*Salmau 96. 11-12; Eseia 6.3; Eseia 47.20; Salmau 150.6*). Rydym yn cydnabod llun a delw Duw nid yn unig ynom ni ein hunain (*Genesis 1.27*), ond ar bob creadigaeth sy'n datgelu Duw i'w hun (*Salm 19. 1-4*) ac i ninnau (*Rhufeiniaid 1.20*).

### Perthynas a chyfrifoldeb

Mae pennod gyntaf Genesis yn disgrifio Duw yn creu dynioliaeth ac yna'n creu anifeiliaid tir eraill ar y chweched diwrnod, gan ddarparu llystyfiant iddynt oll i'w fwyta (*Genesis 1. 24-30*). Mae'r gwraidd Hebraeg a rennir gan Adda ac adama yn ein hatgoffa o'r berthynas hon: lluniwyd Adda o lwch y tir a chafodd fywyd trwy anadl Duw (*Genesis 2.7*) ynghyd â phob anifail arall (*Salmau 104. 29-30*).

Eto, rhoddir cyfrifoldeb arbennig hefyd i bobl ofalu am y greadigaeth. Wedi ein gwneud ar ddelw Duw fe'n gelwir i 'lywodraethu ar' y greadigaeth (*Genesis 1.26*); i ofalu amdani fel y mae Duw yn ei wneud, i wasanaethu a chadw'r Ddaear, yn ôl cyfieithiad o'r geiriau Hebreaidd yn Genesis 2:15, ac yng ngoleuni Arglwyddiaeth Crist, i roi ein bywydau mewn gwasanaeth i'r hyn sydd yn ein gofal.

### Gwrthod y cyfrifoldeb a cham-drin y Ddaear

I gydnabod y cydberthnasau hyn, sefydlodd Duw gyfamod gofal gyda 'phob creadur byw o bob math' (*Genesis 9.16*), ond mae pobl 'wedi torri'r cyfreithiau, wedi newid y deddfau a diddymu'r cyfamod tragwyddol. Am hynny fe 'ysir y wlad gan felltith' (*Eseia 24. 5-6*). Ac felly, roedd y Ddaear yn galaru (*Jeremeia 12.4, Hosea 4. 1-3*) a rhagwelwyd dydd pan ddeuai'r Meseia gan adnewyddu'r greadigaeth a chyfiawnder a barn yn nheyrnas dynoliaeth (*Eseia 1. 1-9*). Mae Cristnogion yn cydnabod i'r diwrnod hwn wawrio gydag ymgnawdoliad Crist.

## From our deep concern and responsibility for God's creation and people, we must note:

- the stark warning from the world's scientific community that there are just 9 years left for humanity to have a good chance of preventing 1.5 degrees warming.
- that warming beyond 1.5 degrees represents a threat to the future of humanity, and that even warming limited to that level will wreak havoc upon the livelihoods of countless people across the world.
- that warming beyond 1.5 degrees will have a profound impact on the biodiversity of our planet.

**Further information on the science behind 1.5 degrees warming and climate change can be found at https://www.ipcc.ch/sr15/**

In the shadow of this growing threat posed by climate change and the destruction of species, Christians are rediscovering in scripture the core calling to care for creation. The Anglican Communion's Fifth Mark of Mission voices this imperative "to strive to safeguard the integrity of creation and sustain and renew the life of the earth". We are called to care because 'the Earth is the Lord's and all that is in it' *(Psalm 24.1)*. God delights in the created world *(Genesis 1.31)* which responds to God in praise *(Psalm 96. 11-12; Isaiah 6.3; Isaiah 47.20; Psalm 150.6)*. We recognise God's imprint not only in ourselves *(Genesis 1:27)*, but in all creation which reveals God to itself *(Psalm 19. 1-4)* and us *(Romans 1.20)*.

### Kinship and responsibility

The first chapter of Genesis describes God creating humans together with other land animals on the sixth day, with both alike given vegetation for food *(Genesis 1. 24-30)*. The shared Hebrew root for both Adam and adama remind us of this kinship: Adam was raised from the dust of the earth, human from humus, and gifted life by God's breath *(Genesis 2.7)* along with all other animals *(Psalm 104. 29-30)*.

Yet humans are also given particular responsibility to care for creation. Made in God's image we are called to have 'dominion' over creation *(Genesis. 1.26)*; to care for it as God does, to serve and preserve the Earth as the Hebrew words of Genesis 2.15 can be translated, and in the light of Christ's Lordship, to give our lives in service of that in our charge.

### Responsibility refused and Earth abused

In recognition of these relationships, God established a covenant of care with all people and every living creature *(Genesis 9.16)*, but humans have 'transgressed laws, violated the statutes, broken the everlasting covenant. Therefore, a curse devours the earth' *(Isaiah 24. 5-6)*. And so, the Earth mourned *(Jeremiah 12.4, Hosea 4. 1-3)* and a day anticipated when the Messiah would come and bring a renewal of creation, alongside justice and righteousness in the human realm (*Isaiah* 1. 1-9). Christians recognise this day dawned with the incarnation of Christ.

### Cymod yng Nghrist

Mae'r gwaith o gymodi yng Nghrist yn berthnasol i'r holl greadigaeth, fel y mae Sant Ioan yn ein hatgoffa: 'Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab'. Fel yr esbonia Sant Paul 'a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd' (*Colosiaid 1.20*). Daw Iesu â'r heddwch hwnnw gyda'r byd naturiol (*Marc 1.13*) fel y proffwydodd Eseia. Mae'n ein galw i fyw mewn cytgord â'r greadigaeth trwy ymddiried yn Nuw ar gyfer ein hanghenion sylfaenol, gan ymwrthod â'r ysfa i feddiannu (*Mathew 6. 24-34*), ac ymateb i'r alwad i gyfiawnder drwy garu ein cymydog.

### Adnewyddu dynoliaeth; adfer y greadigaeth

Mae'r greadigaeth yn 'disgwyl yn daer' i'r ddynoliaeth ymateb i alwad Crist i'w 'rhyddhau' (*Rhufeiniaid 8. 19-21*). Am hynny byddwn yn byw mewn nefoedd newydd a daear newydd lle bydd Duw unwaith eto'n preswylio gyda dyn (*Datguddiad 21. 1-3*) a bydd creadigaeth doreithiog yn darparu ei ffrwythau i bawb (*Datguddiad 22.2*). Fel Cristnogion, byddwn yn gweddïo ar Dduw 'deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd'. Gwnawn hyn drwy Ffydd yng Nghrist gan rym yr Ysbryd, a thrwy hynny gallwn rannu yn y dasg lawen o lunio'r amgylchedd naturiol i ddwyn cyfiawnder a haelioni sy'n datgelu Cariad y Crëwr.

### Yr angen i ymateb i newid yn yr hinsawdd

Gelwir arnom fel pobl i ofalu am y greadigaeth ac am ei gilydd, ac eto rydym yn gyfrifol am achosi newid hinsawdd sy'n niweidio'r ddwy elfen fel ei gilydd. Mae dinistrio cynefinoedd, y cynnydd yn nhymheredd y ddaear a'r tywydd hynod eithafol yr ydym yn ei weld yn dileu'r byd a grëwyd trwy gariad Duw, ac yn llesteirio Ei allu i adlewyrchu a chyfleu'r cariad hwnnw, yn ogystal â'i allu i gefnogi ffyniant pobl. Yn yr un ffordd, mae newid yn yr hinsawdd yn fater o gyfiawnder cymdeithasol sy'n effeithio'n gynt ac yn fwyaf difrifol ar y tlotaf yn ein byd. Mae ein galwad i garu ein cymydog yn mynnu ein bod yn gweithredu, ac os yw'r Eglwys am ddwyn eraill i gyfrif, rhaid inni osod trefn ar ein problemau ein hunain yn gyntaf.

### Ein hymateb cenedlaethol: Cynnig y Corff Llywodraethol 2021

**Yn Ebrill 2021, pasiodd y Corff Llywodraethol gynnig i ddatgan Argyfwng Hinsawdd fel a ganlyn:**

> *Rydym yn cydnabod bellach fod angen ymateb byd-eang buan ac ar frys i gynhesu byd-eang.*
>
> *Mae'r ffaith fod atebion helaeth ar gael i liniaru'r argyfwng hinsawdd yn rhywbeth i'w groesawu, gan gynnwys technoleg adnewyddadwy, opsiynau ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy ac adeiladau di-garbon.*
>
> *Rydym yn cefnogi penderfyniadau llywodraethau, cynghorau a sefydliadau ledled Cymru i basio cynigion sy'n datgan bod yna argyfwng hinsawdd ac sy'n gosod targedau allyriadau di-garbon net ar gyfer eu hardaloedd lleol.*
>
> *Trwy gynllun gweithredu, dylem ymdrechu i gyrraedd sefyllfa o allyriadau di-garbon net ar gyfer gweithgareddau'r Eglwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.*

## Reconciliation in Christ

Christ's work of reconciliation is for all creation, as St John reminds us; 'For God so loved the world that he gave his only Son'. As St Paul explains "through him God was pleased to reconcile to himself all things, whether on earth or in heaven, by making peace through the blood of his cross' *(Colossians 1.20)*. Jesus brings that peace with the natural world *(Mark 1.13)* that Isaiah prophesied. He calls us to live in harmony with creation through trust in God for basic needs, rejecting acquisitiveness *(Matthew 6. 24-34)*, and through the call to justice by love of neighbour.

## Humanity renewed; creation restored

Creation longs for humanity to respond to Christ's call that it may be healed *(Romans 8. 19-21)*. For then we shall inhabit a new heaven and a new earth where God will again dwell with people *(Revelations 21. 1-3)* and an abundant creation will yield its fruit for all *(Revelations 22.2)*. As Christians, we pray God 'your kingdom come your will be done on earth as in Heaven'. This we effect though Faith in Christ by the power of the Spirit, whereby we are enabled to share in the joyful task of shaping the natural environment to be a bearer of justice and generosity that reveals the Creator's Love.

## The necessity of responding to climate change

Human beings are called to care for creation and each other, yet we are responsible for causing climate change which damages both in equal measure. The destruction of habitats, rising temperatures and more extreme weather that we are witnessing is obliterating the created world God loved into existence, and hampering its ability to reflect and communicate that love, as well as its ability to support human flourishing. Equally, climate change is a social justice issue which affects the world's poorest soonest and most severely. Our call to love our neighbour demands we act, and if the Church is to hold others to account, we must first set our own affairs in order.

## Our national response: Governing Body Motion 2021

**In April 2021, the Governing Body passed a motion to declare a Climate Emergency as follows:**

> *We acknowledge that that an urgent and rapid global response to global warming is now necessary.*
>
> *We welcome the fact that solutions to alleviate the climate crisis are widely available including renewable technology, sustainable transport options and zero-carbon buildings.*
>
> *We support the decisions of governments, councils and organisations across Wales to pass motions declaring a climate emergency and setting net zero carbon emissions targets for their local areas.*
>
> *We should endeavour, through an action plan, to reach a net zero carbon emission position for the activities of the Church in Wales as soon as is practically possible.*

Furthermore, the Governing Body requested that the Representative Body prepares an action plan, for consideration by the Governing Body at or before its meeting in April 2022, that sets out how the whole of the Church in Wales can reach a net zero carbon emission position by 2030 or as soon as practically possible thereafter.

Ymhellach, gofynnodd y Corff Llywodraethol i Gorff y Cynrychiolwyr baratoi cynllun gweithredu, i'w ystyried gan y Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod yn Ebrill 2022 neu cyn hynny, sy'n nodi sut y gall yr Eglwys yng Nghymru yn ei chyfanrwydd gyrraedd sefyllfa allyriadau di-garbon net erbyn 2030 neu cyn gynted ag y bydd hi'n ymarferol bosibl wedi hynny.

### Pam datgan Argyfwng Hinsawdd?

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi addunedu y bydd y gwledydd yn cyrraedd sefyllfa 'ddi-garbon' erbyn 2050. Hyd yn oed os nad yw'r Eglwys yng Nghymru yn gwneud unrhyw beth, bydd rhaid i ni newid ein hagwedd tuag at yr amgylchedd yn sylweddol, yn enwedig o ran defnyddio ynni a thrafnidiaeth dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae llawer o lywodraethau (yn cynnwys Llywodraeth Cymru), cynghorau a sefydliadau wedi mynegi'r bwriad hwn drwy ddatgan argyfwng hinsawdd.

Mae trafodaethau gyda Mainc yr Esgobion, y Pwyllgor Sefydlog a Chorff y Cynrychiolwyr yn cefnogi'r farn y dylai'r Eglwys, fel Eglwys gyfan, wneud ymrwymiad pendant a rhwymol i gyrraedd sefyllfa lle nad yw ein gweithgareddau'n ychwanegu at allyriadau byd-eang. Di-garbon net yw'r term a ddefnyddir ar gyfer hyn yn aml. Gellir diffinio di-garbon net fel ***cydbwyso'r swm o nwyon tŷ gwydr a allyrrir gyda'r allyriadau cyfwerth sydd naill ai'n cael eu gwrthbwyso neu'n cael eu dal a'u storio.*** (https://www.edie.net/definition/Net-zero/232)

Mewn geiriau eraill, mae cyflawni sefyllfa ddi-garbon net yn golygu, er y byddwn ni'n dal i gynhyrchu rhywfaint o allyriadau nwyon tŷ gwydr o bosibl, y bydd y rhain yn cael eu gwrthbwyso gan fesurau eraill.

Mae'r datganiad Argyfwng Hinsawdd yn ffordd o wneud yr ymwymiad hwn.

### Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad a'r Cynnig?

Mae datganiad Prydain yn gwneud tri pheth:

1. Mae'n cydnabod bod y byd yn wynebu canlyniadau difrifol iawn os nad yw newid yn yr hinsawdd yn cael ei reoli yn y dyfodol. Trwy wneud hynny, mae'n derbyn bod yna dystiolaeth aruthrol o wyddoniaeth.
2. Mae'n rhoi ein gair y byddwn yn gweithio tuag at statws net ddi-garbon.
3. Mae'n ein hymrwymo i greu Cynllun Gweithredu i helpu'r eglwys gyfan i ystyried sut y gellir gwireddu ein bwriadau a beth fydd hyd yr amserlen.

### Beth sy'n digwydd nawr?

Mae Corff y Cynrychiolwyr wedi ymrwymo adnoddau i sicrhau datblygiad y Cynllun Gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r eglwys ar bob lefel yn enwedig Pwyllgorau Eco-eglwysi ac Eco-esgobaethau i ddatblygu cynllun Gweithredu. Rhagwelir y bydd dau weithgor yn cael eu sefydlu i gefnogi'r gwaith hwn:

- ***HYB Di-garbon yr Eglwys yng Nghymru:*** bydd yr hyb yn casglu gwybodaeth gan yr eglwys gyfan, yn nodi heriau allweddol, yn hyrwyddo'r agenda ac yn cysylltu pobl

### Why declare a Climate Emergency?

The UK and Welsh Government have pledged for the nations to reach 'zero carbon' by 2050. Even if the Church in Wales does nothing, we will have to radically change our approach to the environment particularly energy use and transport over the next 30 years.

Many governments (including Welsh Government), Councils and organisations have expressed this intent by declaring a climate emergency.

Discussions with the Bench of Bishops, Standing Committee and Representative Body support the view that the Church should, as a whole Church, make a definite and binding commitment to reach a position where our activities do not add to global emissions. This is often called Net Zero Carbon. Net Zero can be defined as ***'balancing the amount of emitted greenhouse gases with the equivalent emissions that are either offset or sequestered.'*** (https://www.edie.net/definition/Net-zero/232)

